# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Ebrill 12fed 2017.

**Presennol.**

Cyng Chris Dixon,Cyng C.Edwards,Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts, Cyng G.Edwards

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Jones  Cyng P.Jenkins   Cyng G.Hughes.

**Cofnodion cyfarfod Mawrth 8fed 2017**.

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Dixon ac eilwyd gan Cyng Morris.

**Materion yn codi.**

Ysgol Ganllwyd-Cyng Roberts yn adroddi i'r cyngor fod cynlluniau i drefnu noson i goffau cau yr ysgol ar yr 8fed o Orffenaf 2017 mewn llaw. Nid oes dim i'r cyngor wneud i helpu ar yr amser yma.

Rali Meirion—Mae Rhys Jones swyddog y rali wedi gaddo bydd y difrod yn ardal Maes yr Eglwys Wen yn cael ei atgyweiro penwythnos 8/9 Ebrill 2017. (Derbynwyd e-bost gan Mr Jones 26ain Ebrill i gadarnhau fod y gwaith wedi gwblhau).

Y Wasg- Mae erthygl Cyng Dixon yn tynnu sylw at y materion a wynebir gan y cyngor cymuned wedi cael ei hargraffu yn y Cambrian News.

Dalfa Dolgellau—Mae'r aelod seneddol Liz Saville Roberts wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Mr Jones i bwysleisio y pryderon sydd gan y Cyngor ynglyn a'r mater hwn. Mae Mr Jones wedi ymateb gan ddweud bydd yr ardal yn elwa drwy gael mwy o heddweision. Bydd angen monitro'r sefyllfa.

Cost archwilio—Mae'r mater yma yn parhau.Mae Mr Deryck Evans (Swyddfa Archwilio Cymru) yn cynnal ymchwiliadau hefo'r BDO ynglyn a costau archwilio'r cyngor.Nid oes ateb wedi ei dderbyn.

Toiled cyhoeddus y Ganllwyd—Mae'r contract  sydd wedi ei lofnodi gan y Cyngor wedi ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd. Nid yw'r cyngor cymuned wedi derbyn anfoneb am £250 sef rhan o'r costau i'r toiled i barhau yn agored.

Rhoddion—Mae'r sieciau wedi cael eu dosbarthu i'r sefydlau amrywiol.

**Adroddiad Cynghorwr Sir**

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol y mis.**

Cyson banc Mawrth 2017

| | | |
|---|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | | £6204.71 |
| Derbyniwyd: | | Dim |
| Taliadau: | Cyflog/Paye | £100.00 |
| | Mr Thomas (Ffenest safle bws) | £ 84.00 |
| | Printer ink | £ 20.90 |
| Diwedd y mis /flwyddyn ariannol | | £5999.81 |

Cyngor yn cytuno fod y manylion uchod yn gywir.

Derbynwyd anfoneb gan E.W.Owen (accountant) £180

Derbynwyd bil gan archwilydd mewnol J.D.Roberts am waith a gynnal am y flwyddyn ariannol 2015/16 £46.

Clerc i wneud cais am ad-daliad TAW.

Llythyrau & e-byst.

Derbynwyd gwybodaeth gan Liz Haynes Cyngor Gwynedd (3/4/17) fod Cyngor Ganllwyd am dderbyn £577.10 er mwyn cynnal llwybrau cyhoeddus 2017/18.

Yn dilyn trafodaeth, cytynodd y Cyngor fod yn rhan or trefniant ad dalu am y flwyddyn yma.

Clerc i gysylltu a Liz Haynes i gadarnhau hyn.

Cynghorwyr i cysidro a dewis pa waith sydd i gynnal yn yr ardal.

Llythyr gan Sion Huws dyddiedig 27/3/17 (Uwch gyfreithiwr Cyngor Gwynedd) yn cynnig cyfle i'r cyngor enwebu aelod i wasanaethu fel aelod cymynedol ar Bwyllgor safonnau Gwynedd.

Neb yn bresennol a diddordeb.

Parc Cenedlaethol—Bydd cyfarfod blynyddol hefo'r cynghorau cymuned yn Coed y Brenin yn Mehefin 2017.

Unrhyw fater arall.

Cyng Dixon am ysgrifennu i'r cymdeithas y Bothy i gwyno am ymddygiad gwrth gymdeithasol yn y bothy gan ymwelwyr i'r ardal.